Aidan Sant *m.* 651

Esgob Lindisfarne

Ordeiniwyd Aidan yn esgob Iona yn 634 ac aeth i Bamburgh lle roedd gan Oswallt, brenin Northumbria, gastell. Rhoddwyd iddo Ynys Lindisfarne yn rhodd fel canolfan i'w genhadaeth, a sefydlodd fynachlog yno.

Ysgrifennodd Bede gan ddweud bod pobl yn heidio i wrando ar Aidan yn pregethu'r gair a bod llawer wedi dod i gredu. Yn aml byddai'r brenin yn teithio gydag ef fel cyfieithydd. Teithiai Aidan bob amser ar droed, a byddai'n rhannu'r Efengyl gyda theithwyr eraill.

Fe'i hadnabyddid fel gŵr duwiol ac roedd yn gas ganddo bobl oedd yn malu awyr wrth iddo gerdded trwy gefn gwlad gyda'i fynaich yn adrodd salmau a myfyrio ar bregethau. Byddai'n ymprydio bob dydd Mercher a phob dydd Gwener, a hynny hyd y nawfed awr. Nid oedd ganddo unrhyw ddiddordeb mewn ymgyfoethogi fel rhai o'i olynwyr. Rhoddai lawer o'r rhoddion a dderbyniai i'r tlodion ac yn achlysurol byddai'n defnyddio ei arian i ryddhau caethweision.

Credai Aidan hefyd yng ngrym gweddi. Un tro, wrth i frenhinoedd paganaidd Mersia warchae ar Bamburgh, rhoddwyd y dref ar dân. Lledaenodd y tân dan rym y gwynt i gyfeiriad castell y brenin. Gweddïodd Aidan yn daer a newidiodd cyfeiriad y gwynt gan chwythu'r fflamau tuag at yr ymosodwyr.

Bu farw Oswallt mewn brwydr ger Croesoswallt yn 642 a chollodd Aidan gyd-weithiwr gwerthfawr dros yr Efengyl. Parhaodd i bregethu gan deithio o ardal i ardal. Arweiniodd genhadaeth i Swydd Lincoln, lle y sefydlwyd nifer o eglwysi, a dywedid i'w fynaich gyrraedd cyn belled ag afon Tafwys. Cynorthwyodd hefyd i sefydlu mynachlogydd a lleiandai yn Melrose, Gateshead a Whitby.

Ym mis Medi 651, tra oedd ar daith, dioddefodd salwch blin a bu farw. Claddwyd ei weddillion ar Lindisfarne. Llwyddodd Aidan i ailsefydlu Cristnogaeth yn Northumbria ar draul yr hen baganiaeth a bu Lindisfarne yn ddylanwadol wrth ledaenu Cristnogaeth trwy ardaloedd eraill.